TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT:
Prydlesu'r eiddo a adnabyddir fel Uned 5 Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd
Leasing the property known as Unit 5 Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER:
Cynghorydd Dafydd Meurig
Councillor Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD/DECISION:
Prydlesu'r eiddo a adnabyddir fel Uned 5 Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd tan 31/03/2018 ar delerau ac amodau i'w pennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol.

Lease the property known as Unit 5 Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd until the 31/03/2018 on terms and conditions to be determined by the Senior Manager – Corporate Property.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASONS FOR THE DECISION:

Cefndir
Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi derbyn cynnig ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru i weithredu Cynllun Creu Cymunedau Cyfoes yng Nghaernarfon. Cynllun grant yw hwn tan 31/10/17.
Mae cynllun Creu Cymunedau Cyfoes yn gynllun sydd yn datblygu a chefnogi'r sector greadigol yn lleol. Mae'n cael ei datblygu hefyd fel rhan annatod o waith adfywio'r dref sydd yn cael ei arwain gan yr Adran.
Fel prif arianwyr y cynllun mae'r Cyngor Celfyddydau yn credu ei bod yn greiddiol lleoli'r ddau swyddog prosiect yn y Galeri. Rheswm am hyn yw fod gan y Galeri enw da ac eisoes wedi ei sefydlu fel hwb ar gyfer y diwydiannau creadigol. Byddai lleoliad yn y Galeri yn sicrhau fod y cynllun yn cael ei weithredu yn fwy effeithiol.
Arian y grant gan y Cyngor Celfyddydau fyddai yn ariannu'r gofod swyddfa a'r costau cysylltiedig.

Mae'r Uned 5 Y Galeri wedi ei adnabod fel uned addas i ddiben y cynllun.

Ystyriaethau perthnasol
Yn yr achos yma bydd Cyngor Gwynedd yn dal y brydles er mwyn gweithredu'r cynllun.
Ariennir y costau cysylltiedig â'r brydles yn gyfan gwbl o gyllideb Cynllun Creu Cymunedau Cyfoes.

Background
The Economy and Community Department has received a funding package from Arts Council Wales to implement the Ideas People Places Project in Caernarfon. This is a grant funded project up to 31/10/17.

The Ideas People Places project is a project that develops and supports the local creative industry. It is also developed as an integral part of the regeneration of the town which is led by the Department.

As main funders the Arts Council believe that it is important to locate the two project officers at Galeri. The reason for this is that Galeri is well respected and is already established as a hub for the creative industries. Locating the officers at Galeri would ensure that the project is implemented more efficiently.

The Arts Councils grant will be funding the office space and associate costs.

Unit 5 at Galeri has been identified as a suitable unit for this purpose.

Relevant Considerations
In this instance Cyngor Gwynedd will hold the lease in order to implement the project. The costs associated with the lease will be funded through the Ideas People Places budget.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-
"Dim i'w ychwanegu"
"Nothing to add"

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-
"Dim sylwadau I'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."
"No comments to add in relation to propriety"

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-
"Gan fod grant penodol wedi ei dderbyn i ariannu'r brydles yma, ac fod y rhai sydd yn talu'r grant yn awyddus i'r gwasanaeth gael ei redeg o'r lleoliad yma, nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir".
"Since a specific grant has been received to fund this lease, and that the grantors are keen for the service to be run from this location, I have no objection to the decision sought".

BARN YR AELOD LLEOL / VIEW OF LOCAL MEMBER
Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas
Wedi datgan buddiant fel Cadeirydd Galeri Caernarfon Cyf, felly ddim am gyflwyno sylwadau
Declared an interest as Chairman of Galeri Caernarfon Cyf, therefore not providing any comments

LLOFNOD / SIGNED

DYDDIAD/DATE

08.06.15